Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **25 Hydref 2016** |
| **Amser:** | **14:00 – 15:20** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (PG)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mrs Sharon Richards, Rheolwr Llywodraethu a Dirprwy Swyddog Monitro, SCHTh (SR)<br>Arol. Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS)<br>PC Jo Thompson, Swyddog Staff Cynorthwyol (JT) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 10/10/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2060** | **Ystyried cyfle ar gyfer fideo gynadledda ar gyfer yr uwch-gynhadledd fformiwla ariannu ar 14/10/16** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2061** | **Diweddariad ynghylch y defnydd o oedolion priodol i'w gyflwyno i'r Bwrdd Plismona ar sail chwarterol** | **Rhestredig - Cwblhawyd** |
| **PB 2062** | **Rhoi crynodeb o'r adroddiad ar gydymffurfiaeth o ran troseddau trais rhywiol gan AHEM i'r CHTh** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2063** | **Darparu diweddariad ynglŷn â nifer y gwrthdrawiadau traffig y ffyrdd angheuol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2064** | **Gwahodd y CHTh i seremoni cymeradwyaethau'r PG** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2065** | **Sefydlu grŵp ymchwil a chynnal cyfarfod agoriadol cyn diwedd y flwyddyn** | **Cyfredol** |
| **PB 2066** | **Rhoi eglurhad i'r CHTh mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer cyllid y Ddeddf Elw Troseddau** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2005 (ail agorwyd)** | **Adrodd i'r CHTh ar sut yr oedd arian dros ben o ran ailhyfforddi gyrwyr yn cael ei wario, a rhoi cynllun iddo ar gyfer gwariant yn y dyfodol** | **Cwblhawyd – Disodlwyd gan PB 2070 a PB 2071** |
| **PB 2067** | **Rhoi diweddariad i'r CHTh ynglŷn â gwasanaethau meddygol fforensig** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2068** | **Trafod gwasanaethau meddygol fforensig yn y Grŵp Plismona Cymru Gyfan ar 11/10/16 a thrafod â'r adran gaffael** | **Cwblhawyd – trafodwyd ateg galwad** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **cynhadledd CHTh** |
| **PB 2069** | **Rhoi diweddariad i'r CHTh ynglŷn â'r modd y mae'r arllwysiad cerosin yn cael ei reoli** | **Cwblhawyd** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 25/10/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Penderfyniad** | **Crynodeb o'r penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 10** | **Mae'r CHTh yn cymeradwyo bod y gyllideb POCA'n cael ei defnyddio i ariannu Ymchwilydd Ariannol arall am £30,744** | **Rheolwr Ariannu Allanol** |
| **PB T2 11** | **Mae'r CHTh yn cymeradwyo'r penderfyniad i ganiatáu'r cytundeb â'r Gwasanaethau Ymchwil Barn i ddod i ben ac ymrwymo i gytundeb â Heddlu Dyfed-Powys i gyflwyno'r swyddogaeth bodlonrwydd dioddefwyr o 1 Ebrill 2017** | **CCo** |
| **PB T2 12** | **Mae'r CHTh yn cymeradwyo gwobrwyo'r cytundeb ar gyfer cynnal a chadw a chymorth systemau 999 ac 101 i KCom am gyfnod o 12 mis am £78,856.97** | **CA** |
| **PB T2 13** | **Mae'r CHTh yn cymeradwyo'r penderfyniad i adael i'r cytundeb â Chymorth i Ddioddefwyr ddod i ben ar 31 Mawrth 2017 a darparu gwasanaeth cyfeirio dioddefwyr mewnol o 1 Ebrill 2017** | **CCo** |

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref a materion yn codi**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

PB 2055 – cyfarfod â CHTh Gogledd Cymru mewn perthynas â fformiwla ariannu. Cadarnhaodd y CHTh bod y cyfarfod wedi'u gynnal er mwyn cyflwyno sylwadau HDP ynglŷn â'r mater. Byddai'r CHTh hefyd yn mynychu cyfarfod â'r Gweinidog Plismona ar 15 Tachwedd.

PB 2063 - diweddariad ar wrthdrawiadau traffig ffyrdd angheuol. Roedd y CHTh wedi derbyn diweddariad cyn y cyfarfod. Nododd y CHTh bod mynychder gwrthdrawiadau traffig ffyrdd angheuol eleni'n debyg i llynedd, heb unrhyw gynnydd nodedig.

PB 2064 – Seremoni cymeradwyaethau'r PG. Cadarnhaodd y CHTh bod y CHTh wedi'i wahodd i'r seremoni ar 18 Rhagfyr 2016.

PB 2066 – Eglurhad ynghylch y cynnig o ran cyllid Deddf Elw Troseddau (POCA). Sicrhawyd y CHTh y byddai'r cais am gyllid ar gyfer ymchwilydd ariannol ychwanegol yn cynyddu lefel sefydliad yr adran. Cymeradwyodd y CHTh y gwariant a byddai'n llofnodi cofnod penderfyniad y tu allan i'r cyfarfod.

**Penderfyniad: Mae'r CHTh yn cymeradwyo bod y gyllideb POCA'n cael ei defnyddio i ariannu Ymchwilydd Ariannol arall am £30,744**

PB 2005 - arian sy'n weddill drwy'r cyrsiau ailhyfforddi gyrwyr. Roedd y PSA wedi cwrdd â'r Prif Uwch-arolygydd Huw Meredith er mwyn trafod y cynigion ar gyfer gwariant a chytunwyd y byddai gwybodaeth bellach yn cael ei darparu. Daeth i'r amlwg bod rhai eitemau'n gysylltiedig ag ymchwil. Gan hynny, awgrymwyd y dylai'r Bwrdd Ymchwil ystyried y rhain ar ôl i'r Bwrdd gael ei sefydlu. Cytunodd y CHTh, gan ddweud bod angen hwyluso sefydlu'r Bwrdd Ymchwil er mwyn trafod y mater yn y cyfarfod agoriadol. Cytunwyd i ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer cydweithio â Heddluoedd eraill mewn perthynas â hysbysebu o ran diogelwch y ffyrdd. Dywedodd y CHTh y dylai Swyddog Diogelwch y Ffyrdd yr Heddlu fod yn gysylltiedig â'r trafodaethau.

**Cam gweithredu: SCHTh a Swyddog Diogelwch y Ffyrdd i archwilio i gyfleoedd ar gyfer cydweithio â Heddluoedd eraill mewn perthynas ag ymgyrchoedd hysbysebu diogelwch y ffyrdd**

**Cam gweithredu: Ystyried elfennau ymchwil o gynnig diogelwch y ffyrdd yng nghyfarfod agoriadol y Bwrdd Ymchwil**

PB 2067 - diweddariad ar gynnydd o ran gwasanaethau meddygol fforensig. Rhoddodd y CHTh grynodeb ynghylch cynnydd. Roedd trafodaethau gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi pennu nad oedd y bartneriaeth yn ymarferol ar hyn o bryd. Roedd gan heddluoedd De Cymru a Gwent gytundeb â'u darparwyr cyfredol tan fis Mai 2018, ac felly nid oedd modd iddynt ymrwymo i gaffael ar y cyd â HDP tan hynny. Gan hynny, byddai angen i HDP aros gyda'r darparwyr cyfredol. Dywedodd y PSA bod y Pennaeth Caffael yn edrych ar opsiynau sydd ar gael drwy fframweithiau cenedlaethol ar hyn o bryd. Eglurwyd y byddai'r cytundeb cyfredol yn dod i ben cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Daethpwyd i'r casgliad y byddai'r mater dal yn cael ei symud yn ei flaen drwy'r adran gaffael.

PB 2069 – diweddariad ynghylch rheoli'r gollyngiad cerosin. Roedd y CHTh wedi derbyn diweddariad ac roedd ar ddeall bod rheolaeth traffig mewn perthynas â chau'r ffordd wedi'i drin yn arbennig.

Cododd y CHTh y mater o werthusiadau swydd a oedd wedi'i drafod yn flaenorol (cam gweithredu PB 2057). Yn dilyn trafodaethau preifat, cytunwyd y byddai'r mater yn cael ei ddilyn â'r PG newydd ar ôl iddo gychwyn.

**Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Dywedodd y PG bod 6 aelod staff wedi'u hatal o'r gwaith ar hyn o bryd. Roedd un aelod staff wedi'i ddiswyddo'r wythnos gynt am 17 achos o gamymddwyn difrifol. Sicrhaodd y PG a'r CA y CHTh bod gwersi wedi'u dysgu o'r achos a bod cymorth priodol wedi'i roi i bawb a oedd yn gysylltiedig â'r mater.

Tynnodd y PG sylw at ddigwyddiadau gweithredol allweddol gan gynnwys achosion o drais yn Llanelli ac Ystradgynlais, gwarant gyffuriau arwyddocaol a gynhaliwyd yn y Drenewydd a arweiniodd at un arést, ac achosion o gynnau tân yn fwriadol a oedd yn destun ymchwiliad yn Hwlffordd ar hyn o bryd. Bu dau achos yn ystod yr wythnos diwethaf lle'r ymosodwyd ar swyddogion. Dywedodd y PG y byddai'r Heddlu'n monitro ymosodiadau ar swyddogion heddlu yn yr un modd ag y mae digwyddiadau gelyniaethus yn cael eu monitro. Ystyriodd y CHTh y byddai cyflwyno camerâu fideo a wisgir ar y corff yn cefnogi hyn.

Tynnodd y PG sylw at wrthdrawiad beic cwad angheuol a ddigwyddodd oddi ar y ffordd. Gofynnodd y CHTh pa un ai a yw digwyddiadau fel hyn yn cael eu hadlewyrchu o fewn yr ystadegau gwrthdrawiadau. Nid oedd hyn yn glir. Cytunwyd y byddai'r Heddlu'n ymchwilio ac yn hysbysu'r CHTh.

**Cam gweithredu: Yr Heddlu i ganfod pa un ai a yw gwrthdrawiadau allffordd yn cael eu hadlewyrchu o fewn ystadegau gwrthdrawiadau traffig y ffyrdd**

Rhoddodd y PG wybodaeth am achos arwyddocaol o unigolyn o'r Trallwng a oedd wedi pledio'n euog i 24 achos o ddwyn a thwyllo. Roedd yr unigolyn wedi twyllo 12 dioddefydd o bron £1.4 miliwn. Rhoddwyd 6 mis iddo ddychwelyd yr arian neu dderbyn cyfnod hir o garchar.

Cododd y PG yr ystadegau trosedd diweddar a ryddhawyd gan Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol. Bu cynnydd o 9% o ran troseddau yn HDP, a oedd yn unol â'r duedd genedlaethol. Nododd y PG bod HDP yn profi cynnydd sylweddol (29%) o ran meddu ar arfau o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 16%. Dywedodd y PG bod hynny'n cyfateb i 34 trosedd a bod gwaith dadansoddi'n digwydd er mwyn deall y cynnydd. Cytunodd y PG i roi crynodeb o'r adroddiad i'r CHTh.

**Cam gweithredu: Y PG i roi crynodeb i'r CHTh o ystadegau trosedd y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol**

Holodd SR pa un ai a oedd hyn yn gysylltiedig â'r stori newyddion mewn perthynas â'r cynnydd yn nifer y bobl ifainc sy'n cymryd rhan mewn troseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Dywedodd y CHTh bod hyn o ganlyniad i gais Rhyddid Gwybodaeth.

**Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Roedd y CHTh yn bresennol yng nghyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu'r wythnos diwethaf, sef y cyfarfod olaf i'w gadeirio gan Andy Edwards gan ei fod yn ymddeol. Roedd y CHTh yn ystyried bod y Panel yn cynnig cyfle i gefnogi rôl graffu SCHTh i radd uwch. Roedd yr adroddiad drafft ar y Cynllun Heddlu a Throseddu wedi'i gyflwyno i'r Panel, a derbyniodd ymateb da. Cytunodd y CHTh i rannu'r adroddiad â'r PG. Dywedodd SR y byddai gwybodaeth a dderbyniwyd drwy ddigwyddiadau ymgynghori'r Heddlu ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ddefnyddiol ar gyfer cefnogi datblygu'r Cynllun. Roedd y CHTh yn annog rhannu gwybodaeth o ymgynghoriadau.

**Cam gweithredu: SCHTh i rannu'r adroddiad drafft ar y Cynllun Heddlu a Throseddu â'r Heddlu**

Cadarnhaodd y CHTh bod cynigion wedi'u gwneud i ddau unigolyn ar gyfer y rôl Swyddogion Ymgysylltu Cymunedol ar gyfer SCHTh. Disgwylir y byddant yn dechrau mis nesaf. Cafwyd trafodaeth ynghylch fetio, gyda'r CA yn sicrhau bod yr adran yn symud ymlaen drwy'r ceisiadau.

Darparodd y CHTh drosolwg o'r materion a gododd mewn cyfarfod diweddar o Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

**Diweddariad y Cyfarwyddwr Adnoddau**

Cyflwynodd y CA bapur ar berfformiad yr adran trwyddedu arfau saethu. Dywedodd y CA y bu cynnydd o ran adnoddau er mwyn rheoli'r ceisiadau ar adegau brig yn ogystal â gwaith gwella parhaus. Roedd y CA yn ystyried bod perfformiad yn dda o ystyried y lefel galw uchel cyfredol. Rhoddodd y CA sicrwydd bod rhesymau dilys am yr oedi o ran y ceisiadau hynny sydd heb eu trin o fewn yr amserlen. Nodwyd bod y weithdrefn feddygol newydd yn effeithio ar oedi o ran prosesu. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chyllido cysylltiad meddygon teulu yn y broses. Nododd y PG y byddai meddygon teulu dal yn awgrymu wrth gleifion y dylent ail ystyried cyn gwneud cais ar gyfer arf saethu os oedd ganddynt bryderon. Roedd gweithgor cenedlaethol wedi'i sefydlu gan y Swyddfa Gartref er mwyn ystyried y mater. Dywedodd y CA y byddai'r adran arfau saethu'n paratoi cynnig ar gyfer rheoli'r mater hwn i'w gyflwyno i'r Grŵp Prif Swyddogion maes o law. Holodd SR beth oedd yn digwydd i'r ceisiadau lle nad oedd adborth meddygol wedi'i dderbyn. Dywedodd y CA bod tua 250 o'r rhain, gan gynnwys adnewyddiadau a cheisiadau newydd, ac nad oeddent yn cael eu prosesu. Holodd SR pa un ai a oedd unrhyw drwyddedau dros dro'n cael eu cyhoeddi o ganlyniad i'r broblem o ran meddygon teulu. Dywedodd y PSA bod 157 ac 83 trwydded dryll ac arf saethu mewn grym yn ôl eu trefn o gymharu â 263 a 165 y llynedd. Disgwylir y gallai'r ffigurau hyn godi yn y tymor byr hyd nes y bydd y broblem o ran cyngor meddygol wedi'i datrys. Roedd y PSA yn ystyried ei bod hi'n bwysig bod gan yr heddlu bolisi ar gyfer cefnogi penderfyniadau ar sail risg. Dywedodd y PG nad oedd yn teimlo ei bod hi'n ddoeth cyhoeddi trwyddedau

dros dro o ganlyniad i'r broblem genedlaethol. Holodd y CHTh sut oedd ceisiadau a oedd yn cymryd mwy na'r amserlen darged o 75 diwrnod yn cael eu monitro. Dywedodd y CA bod y rhain yn cyfrif am oddeutu 2% o'r holl geisiadau'n cael eu dwysau i lefel uwch ar gyfer ystyriaeth. Nododd y CHTh ei fod dal yn derbyn mynegiannau o anfodlonrwydd mewn perthynas â'r oedi o ran prosesu trwyddedau. Cytunwyd y byddai'r CA yn rhoi adborth i'r CHTh ynglŷn â'r mater. Roedd y CHTh yn fodlon bod perfformiad yn gwella a nododd fod gan HDP nifer uwch o drwyddedau arfau saethu fesul pen o'r boblogaeth na gweddill y wlad.

**Cam gweithredu: Y CA i roi esboniad i'r CHTh o ran sut y mae ceisiadau arfau saethu sy'n mynd dros 75 diwrnod yn cael eu rheoli**

**Diweddariad y Prif Swyddog Ariannol**

Dywedodd y PSA y byddai SCHTh yn hysbysebu cyfle am secondiad 12 mis ar gyfer Swyddog Cymorth Ystadau cyn hir. Roedd y PSA yn adolygu'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2017/18 ar hyn o bryd, a baratowyd gan y CC. Nododd y PSA y nifer o brosiectau newydd sydd wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan dynnu sylw at yr angen i sefydlu pa rai fydd yn derbyn blaenoriaeth dros eraill. Ystyriodd y PSA y byddai'r gyllideb yn cael ei gosod mewn pryd ar gyfer cyflwyniad i'r Panel Heddlu a Throseddu ym mis Ionawr, er waethaf ansicrwydd o gwmpas y fformiwla ariannu a'r setliad.

**Diweddariadau**

***Bodlonrwydd Defnyddwyr***

Dywedodd y PSA bod papur wedi'i ddrafftio gan y Cyfarwyddwr Comisiynu (CCo) mewn paratoad ar gyfer y cyfarfod, fodd bynnag, roedd trafodaethau wedi esblygu i ystyried pa un ai a yw'r Heddlu'n dymuno darparu'r arolwg bodlonrwydd dioddefwyr ar ran y CHTh. Cytunodd y PG oherwydd mae'r Heddlu'n dadansoddi peth o'r data ar hyn o bryd ac ystyriodd y byddai'n caniatáu i'r Heddlu adfer y gwasanaeth adeg yr alwad (adferir y gwasanaeth drwy'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus ar hyn o bryd). Dywedodd y PSA y byddai'r gyllideb a bennwyd i'r cytundeb gwasanaeth cyfredol, sef £20,000, ar gael ar gyfer y gwaith. Byddai'r PSA yn rhannu'r cynnig â'r Heddlu yn dilyn y cyfarfod. Cytunwyd y byddai'r CHTh yn rhannu canllawiau'r Swyddfa Gartref ar y lefel ofynnol o ran arolygon a mecanweithiau adrodd â'r Heddlu. Nododd y CHTh yr angen ar gyfer cyfathrebu â darparwr cyfredol yr arolwg i'w hysbysu na fyddai'r cytundeb yn cael ei adnewyddu; bydd hyn yn cael ei hwyluso drwy'r Adran Gaffael.

**Penderfyniad: Mae'r CHTh yn cymeradwyo'r penderfyniad i ganiatáu'r cytundeb â'r Gwasanaethau Ymchwil Barn i ddod i ben ac ymrwymo i gytundeb â Heddlu Dyfed-Powys i gyflwyno'r swyddogaeth bodlonrwydd dioddefwyr o 1 Ebrill 2017**

**Cam gweithredu: Yr heddlu i nodi eu pwynt cyswllt sengl ar gyfer datblygu'r gwasanaeth bodlonrwydd dioddefwyr**

**Cam gweithredu: Y PSA i rannu'r cynnig bodlonrwydd dioddefwyr â'r Heddlu**

***Bodlonrwydd Dioddefwyr / Cam-drin Domestig***

Roedd y CCo wedi mynegi pryder mewn perthynas â sut y byddai cyflwyno yn erbyn y canllawiau a ryddhawyd fis Ebrill yn cael ei gyflawni, yn arbennig mewn perthynas â chysylltu â dioddefwyr cam-drin domestig. Cafwyd trafodaeth; byddai angen ystyriaeth bellach er mwyn dod i gytundeb ynglŷn â'r mater.

***Adroddiad cynnydd o ran y Cynllun Iaith Gymraeg***

Nodwyd yr adroddiad. Dywedodd y CA mai hwn oedd yr adroddiad olaf ar y cyd rhwng HDP a SCHTh cyn gweithredu'r Safonau newydd.

Roedd y CHTh wedi cwrdd â Chymdeithas yr Iaith a byddai'n trafod y safonau Cymraeg ymhellach â Chomisiynydd y Gymraeg cyn hir. Dywedodd y CA bod pryderon a godwyd gan Gymdeithas yr Iaith o ran gwasanaethau derbynfa dwyieithog wedi'u cynnwys yng nghynllun gweithredu Safonau Cymraeg yr Heddlu. Roedd nifer y Trinwyr Galwadau yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu sy'n siarad Cymraeg wedi cynyddu. Roedd y CHTh yn cydnabod y gwaith sydd angen er mwyn bodloni'r safonau, a dywedodd ei fod yn gobeithio dysgu o ymagwedd Gogledd Cymru tuag at ddarpariaeth Cymraeg.

**Unrhyw Fusnes Arall**

***Cais Tendr Sengl 999 ac 101***

Cyflwynodd y CA yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y CHTh i adnewyddu ar gyfer y cytundeb cyfredol gyda KCom am 12 mis ar gyfer cynnal system Cisco 101 a 999. Byddai'r cytundeb yn darparu'r swyddogaeth tra bod yr Heddlu'n edrych ar y gofynion ar gyfer uwchraddiad llawn yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu.

**Penderfyniad: Mae'r CHTh yn cymeradwyo gwobrwyo'r cytundeb ar gyfer cynnal a chadw a chymorth systemau 999 ac 101 i KCom am gyfnod o 12 mis am £78,856.97**

***Gwasanaeth Cyfeirio Dioddefwyr / Cwtsh Cymorth***

Dywedodd y PSA bod y CHTh wedi cymeradwyo'r penderfyniad i ganiatáu i'r cytundeb â Chymorth i Ddioddefwyr ddod i ben ar 31 Mawrth 2017 a darparu gwasanaeth cyfeirio dioddefwyr mewnol o 1 Ebrill 2017. Roedd y CCo wedi paratoi cynllun gweithredu i gefnogi'r Heddlu o ran datblygu'r gwasanaeth. Pwysleisiodd y CHTh yr angen ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth mewn grym erbyn 1 Ebrill 2017 er mwyn cynnal cysondeb cyflenwi.

**Penderfyniad: Mae'r CHTh yn cymeradwyo'r penderfyniad i adael i'r cytundeb â Chymorth i Ddioddefwyr ddod i ben ar 31 Mawrth 2017 a darparu gwasanaeth cyfeirio dioddefwyr mewnol o 1 Ebrill 2017**

**Cam gweithredu: PSA i ddosbarthu'r cofnod penderfyniadau a'r cynllun gweithredu ar gyfer trosglwyddo'r gwasanaeth cyfeirio dioddefwyr**

**Cam gweithredu: SCHTh i ddatblygu cytundebau gwasanaeth er mwyn i'r gwasanaethau bodlonrwydd defnyddwyr a chyfeirio dioddefwyr i gychwyn o 1 Ebrill 2017**

***Parthau Plant***

Trafododd y CHTh ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â sefydlu Parthau Plant. Cadarnhaodd MMS bod y llythyr wedi'i gyflwyno i Bethan James, Swyddog Cyswllt Ysgolion, ar gyfer ystyriaeth. Awgrymwyd y dylid codi'r mater yn y Byrddau Gwasanaethau Lleol sydd ar ddod ac y dylai CHTh ymateb i Lywodraeth Cymru gan fynegi cefnogaeth HDP.

**Cam Gweithredu: Trafod Parthau Plant yn y Byrddau Gwasanaethau Lleol sydd ar ddod a drafftio ymateb i Lywodraeth Cymru gan amlinellu cefnogaeth HDP**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 25/10/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2070** | **SCHTh a Swyddog Diogelwch y Ffyrdd i archwilio i gyfleoedd ar gyfer cydweithio â Heddluoedd eraill mewn perthynas ag ymgyrchoedd hysbysebu diogelwch y ffyrdd** | **SCHTh** |
| **PB 2071** | **Ystyried elfennau ymchwil o gynnig diogelwch y ffyrdd yng nghyfarfod agoriadol y Bwrdd Ymchwil** | **SCHTh** |
| **PB 2072** | **Yr Heddlu i ganfod pa un ai a yw gwrthdrawiadau allffordd yn cael eu hadlewyrchu o fewn ystadegau gwrthdrawiadau traffig y ffyrdd** | **MMS** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 2073** | **Y PG i roi crynodeb i'r CHTh o ystadegau trosedd y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol** | **PG** |
| **PB 2074** | **SCHTh i rannu'r adroddiad drafft ar y Cynllun Heddlu a Throseddu â'r Heddlu** | **SR** |
| **PB 2075** | **Y CA i roi esboniad i'r CHTh o ran sut y mae ceisiadau arfau saethu sy'n mynd dros 75 diwrnod yn cael eu rheoli** | **CA** |
| **PB 2076** | **Yr heddlu i nodi eu pwynt cyswllt sengl ar gyfer datblygu'r gwasanaeth bodlonrwydd dioddefwyr** | **PG** |
| **PB 2077** | **Y PSA i rannu'r cynnig bodlonrwydd dioddefwyr â'r Heddlu** | **PSA** |
| **PB 2078** | **PSA i ddosbarthu'r cofnod penderfyniadau a'r cynllun gweithredu ar gyfer trosglwyddo'r gwasanaeth cyfeirio dioddefwyr** | **PSA** |
| **PB 2079** | **SCHTh i ddatblygu cytundebau gwasanaeth er mwyn i'r gwasanaethau bodlonrwydd defnyddwyr a chyfeirio dioddefwyr i gychwyn o 1 Ebrill 2017** | **CCo** |
| **PB 2080** | **Trafod Parthau Plant yn y Byrddau Gwasanaethau Lleol sydd ar ddod a drafftio ymateb i Lywodraeth Cymru gan amlinellu cefnogaeth HDP** | **CHTh** |